

DOLEN Y TAB 76

8–9 Hydref 2021

Am 11 fore Sul 10 Hydref

Yng ngofal Iwan Rowlands
a'r Parchedig Aled Edwards gydag
Eleri'n cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF Cofiwch Gofrestru!

HYDREF

- 17 Cwrdd Diolchgarwch gyda'r Ysgol Sul, Huw M a Bethan Reynolds.
- 24 Yng ngofal Glenys Roberts a'r Parchedig Gethin Rhys.
- 31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

TACHWEDD

- 7 Yng ngofal Ceri Anwen a Geraint Rees.

Hefyd ddydd Sul 10 Hydref

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Richard Cleaves, Pen-y-bont ar Ogwr.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Lisa Jên

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 12 Hydref. Estynnir croeso cynnes i bawb anfon gair atom os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi. Gallwch gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd neu anfon neges at yr Ysgrifennydd: (gehpengwern@yahoo.co.uk, anfon neges destun i 07710 237327 neu ffonio 01443 225205) dim hwyrach na nos Lun 11 Hydref. Ymhlith yr eitemau ar Agenda'r cyfarfod hwn bydd adolygu trefniadau ailagor y Tabernacl ar sail y profiad a gafwyd yn ystod mis Medi. Byddai aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi eich sylwadau chi ar yr eitem hon.

BORE COFFI MACMILLAN

Roedd danteithion blasus iawn yn aros pawb a alwodd yn y Ganolfan fore Llun diwethaf i gefnogi'r bore coffi i godi arian at Gymorth Canser Macmillan. Roedd Eleri Mai, a drefnodd y digwyddiad, am ddiolch i bawb oedd wedi cynorthwyo i sicrhau ei fod yn llwyddiant. Do, fe gafwyd bore hyfryd iawn wrth fwynhau dishgled, cacen a chlonc gydag aelodau'r Tabernacl, a hynny am y tro cyntaf ers deunaw mis. I goroni'r cyfan fe godwyd £250 tuag at achos teilwng iawn.

TESTUN DIOLCH

Mae gwaith elusenol y capel wedi parhau'n gyson dros y cyfnodau clo. Diolch i'ch haelioni chi, fe gasglwyd dros £15,000, a hynny ar ben yr holl gyfraniadau o ddillad, nwyddau a danteithion y Nadolig a'r Pasg, i elusennau ac asiantaethau yn yr ardal. Gyda'r amodau presennol, ddaw'r galw byth i ben, ac mae'n braf gwybod ein bod yn medru gwneud gwahaniaeth, waeth pa mor fach.

CASGLIAD Y BANC BWYD

Bu casgliadau ariannol at y Banc Bwyd yn rhyfeddol o lwyddiannus, gyda'r cyfanswm dros £7,000. Gyda'r capel bellach wedi ailagor, byddwn yn dychwelyd at yr arfer o gasglu bwyd yn hytrach nag arian, a medrwch ddod â'ch cyfraniadau i'r capel fel o'r blaen. Gall unrhyw un nad yw'n dymuno gwneud hyn barhau i gyfrannu'n ariannol.

Byddwn yn cefnogi Banc Bwyd Taf Elái a Banc Bwyd Salem Ton-Teg o hyn allan.

DIOLCH YN FAWR AM EICH CEFNOGAETH
BARHAUS.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL



Pigion o'r Cyfryngau

Dyfodol y Weinidogaeth

Dyma'r pwnc a wyntyllwyd yng nghynhadledd rithiol Cristnogaeth 21 nos Fawrth 28 Medi. Fe gafwyd arweiniad gan dri siaradwr, sef y Parchedig Aled Davies, Chwilog, y Parchedig Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi, a Karen Owen, Pen-y-groes. Roedd y nifer a 'fynychodd' y gynhadledd yn awgrymu bod diddordeb mawr yn y pwnc ym mhob rhan o Gymru ac o fewn pob traddodiad Cristnogol. Mae'r diddordeb yma'n deillio o'r argyfwng sy'n wynebu eglwysi o bob enwad y dyddiau hyn. Os na wnaethoch 'fynychu'r' gynhadledd, yna mae cyfle i chi ddarllen cyfraniadau'r tri yn rhifyn cyfredol e-gylchgrawn Cristnogaeth21, *Agora* (<https://cristnogaeth21.cymru/agora-2/agora-47-mis-medi-hydrif-2021/>). Yr wythnos hon, cyhoeddwyd cyfraniad Aled Davies i'r drafodaeth a bydd crynodeb o gyfraniadau'r ddwy arall i'w gweld yn yr un rhifyn o *Agora* yr wythnos nesaf. Mae llawer o'r sylwadau ganddynt wrth edrych tua'r dyfodol yn awgrymu na ellir dibynnu'n hir eto ar strwythurau'r gorffennol trwy gyflogi gweinidog llawn-amser. Bydd yn rhaid troi at opsiynau amgen. Yma yn y Tabernacl rydym eisoes wedi dewis dilyn opsiwn amgen, ond does dim angen proffwyd i ragweld y bydd rhagor o eglwysi'n dewis, neu'n cael eu gorfodi drwy y blynyddoedd nesaf, i chwilio am strwythurau tra gwahanol i'r un presennol os am barhau i weithredu dysgeidiaeth yr Iesu ar y Sul, ond hefyd wrth gynnig cymorth i'r difreintiedig a'r diymgeledd sydd mewn angen.



CASGLIAD YR AMLENNI BROWN

Cwta dri mis sydd ar ôl i gyfrannu i'r casgliad yma, at bedair elusen yn yr ardal sy'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth, ac yn fawr eu diolch.

Cymorth i Ferched Cymru Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf Cwtch Ysgol Tŷ Coch

Os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu'n barod, byddai'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar iawn pe gallech wneud hynny erbyn canol Rhagfyr, er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r arian yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

DIOLCH YN FAWR



Coffi a Sgwrs

Canolfan y Tabernacl

Bob bore Mawrth
10.30-12.00

Croeso i bawb

COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

*Defnyddio'r dechnoleg fodern
yn ein haddoliad*

7 o'r gloch, Nos Fawrth 19 Hydref
RHODRI DARCY
Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu
Undeb yr Annibynwyr

Manylion pellach a dolen Zoom:
aled@colegyrannibynwyr.cymru

CROESO CYNNES I BAWB

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk

Merched y Wawr Cangen y Garth



**CYLCH
CADWGAN**

Nos Lun, 11 Hydref am 7.30.

Noson ar Zoom yng nghwmni

Lleucu Roberts

enillydd Gwobr Daniel Owen
a'r Fedal Ryddiaith eleni.

Manylion Cysylltu
oddi wrth:
cangenygarth@pentyrch.cymru

Gwahoddiad gan
UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG



UNDOD YN LLE ANNIBENDOD: DR REES [EBENESER] A SEFYDLU UNDEB YR ANNIBYNWYR

Darlith Dathlu 150 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
yng nghwmni'r Athro Prys Morgan

12 Hydref 2021,
7pm yn Ebeneser,
Stryd Ebeneser,
Abertawe
SA1 5BG

Os hoffech fod yn bresennol yn y
ddarlith neu os hoffech ymuno
dros Zoom, cofrestrwch gydag
undebannibynwyr.cymru

